29 Mawrth 2021

Annwyl Swyddog Cyfrifol

Dynodi – mesurau dros dro

Gwnaethom ysgrifennu atoch ym mis Tachwedd i'ch hysbysu y byddem yn ymestyn ein mesurau dros dro ynghylch dynodi a cheisiadau am ddynodi pellach.

Rhoddwyd y mesurau dros dro hyn ar waith gan ein bod yn deall y gallai fod yn anodd i gyrff dyfarnu gael tystiolaeth o gefnogaeth a/neu alw gan drydydd partïon yn ystod y pandemig.

Nid ydym wedi gweld tystiolaeth yn ystod y misoedd diwethaf bod cyrff dyfarnu yn cael anawsterau i gael y dystiolaeth berthnasol o gefnogaeth a/neu alw gan drydydd partïon ac felly ni fyddwn yn ymestyn y mesurau dros dro o ran ceisiadau dynodi a dynodi pellach eto. Er mwyn sicrhau bod cymwysterau dynodedig yn cael eu cefnogi a bod galw amdanynt, bydd ein rheolau a'n canllawiau dynodi arferol felly'n berthnasol wrth symud ymlaen.

I ddynodi cymwysterau ymhellach gyda Dyddiad Gorffen Gweithredol a/neu Ddyddiad Gorffen yr Ardystiad sydd y tu hwnt i 30 Ebrill 2021, unwaith eto bydd angen tystiolaeth o gefnogaeth arnom fel y'i rhestrir yn ein canllawiau yma.

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.qualificationswales.org

Er hynny, os byddwch yn cael unrhyw anhawster i gael tystiolaeth, neu os oes gennych unrhyw ymholiadau cyffredinol ynghylch cyflwyno ceisiadau dynodiad pellach neu gychwynnol, cysylltwch â ni yn recognitionandapproval@qualificationswales.org

Byddwn yn hapus iawn i drafod hyn gyda chi.

Yn gywir

Delyth Jones

Pennaeth Cymeradwyo a Dynodi